# YR HEUWR

CYLCHGRAWN MISOL EGLWYS HOREB, PENRHYN-COCH
CYFROL 2 RHIF 38
HYDREF 2010

Ers rhai misoedd bellach yr ydym wedi bod yn edrych ymlaen at groesawu cenhadon ‘Taith Dewi Sant’ i’r ardal ac erbyn dosbarthu’r cylchlythyr hwn fe fydd y cenhadon wedi cyrraedd Aberystwyth, Penrhyn-coch a’r cyffiniau. Yn ystod eu hymweliad fe fyddant yn ymweld â thafarndai a gweithdai, ysgolion a neuaddau pentre, capeli ac eglwysi. Byddant hefyd yn ymweld â chartrefi’r ardal ac yn cynnal Arolwg Credoau Personol wrth fynd o ddrws i ddrws. Cyfeirio pobl at Dduw fydd eu bwriad, ceisio agor eu meddyliau a’u calonnau i’r Efengyl, ac nid eu cael i ymuno ag unrhyw eglwys neu enwad arbennig. (Rhaid cofio bod y gwir Dduw yn fwy na’i demlau a’i allorau ac yn uwch o lawer nag unrhyw gyfundrefn ddynol.) Delwedd gyfeillgar fydd gan y cenhadon a bydd eu dull o genhadu’n hynaws, eto’n feiddgar, ac heb fod yn ymosodol. Cofiwch os byddwch yn digwydd eu gweld, mynnwch air!

Yn ystod yr wythnos dewch i gefnogi’r oedfaon a’r digwyddiadau arbennig sydd wedi’u trefnu:

- **Nos Sul,3ydd Hydref: Seion, Stryd y Popty: Oedfa Ddiolchgarwch gyd-enwadol am 6yh**
- **Nos Fawrth, 5ed Hydref : Noson yng nghwmni’r Parchedig Daniel Cozens, ‘A Night of Colour’ yng nghapel y Morfa am 7yh. (Cyflwyniad o’r neges Gristnogol drwy gyfrwng gwaith celf).**
- **Dydd Mercher 5ed Hydref: Cymun Canol Dydd am 12.00. Cyfle i glywed tystiolaeth rai o’r cenhadon.**
- **Nos Fercher, 5ed Hydref : Oedfa Ddiolchgarwch yn Neuadd Penrhyn-coch yng nghwmni’r Parchedig Tecwyn Ifan am 7yh**
- **Nos Wener, 7fed Hydref : Oedfa Iacháu Ddwyieithog yn Horeb, Penrhyn-coch am 7yh**
- **Nos Sadwrn 9fed Hydref: Dathliad Ffydd yn y Neuadd Fawr, Aberystwyth am 7yh yng nghwmni’r Parchedig Daniel Cozens.**
- **Cynhelir Gŵyl Flodau yn Neuadd Byddin yr Iachawdwriaeth.**

Dewch i fwynhau’r gymdeithas ac i gael ein hysbrydoli o’r newydd ac i ufuddhau i gomisiwn holl bwysig ein Harglwydd Iesu. Yng ngeiriau’r emynydd John Roberts:

‘Cofiwn am gomisiwn Iesu
cyn ei fyned at y Tad:
“Ewch, pregethwch yr Efengyl,
gwnewch ddisgyblion ymhob gwlad.”
Deil yr Iesu eto i alw
yn ein dyddiau ninnau nawr;
ef sy’n codi ac yn anfon
gweithwyr i’w gynhaeaf mawr.’

Pob bendith
Judith

Berwynfa, Penrhyn-coch, Aberystwyth. SY23 3EW
Rhif Ffôn : 01970 820939 E-bost: berwynfa@btinternet.com.

## CALENDR MIS HYDREF 2010

| | | |
|---|---|---|
| Cyhoeddwr y Mis: William Howells | Organydd y mis : Ceris Gruffudd | |
| 3 Hydref 2.30<br>6yh | Oedfa gymun : Gweinidog<br>Oedfa Ddiolchgarwch gyd-enwadol yn Seion, Stryd y Popty. | Bwrdd y Cymun: Richard a Gwenan |
| 10 Hydref 10.45 | Oedfa Undebol yn Eglwys Sant Ioan<br>Pregethir gan y Parchedig Eric Greene<br>Cinio i ddilyn | |
| 17 Hydref 2.30 | Oedfa Bregeth: Gweinidog<br>Cynhelir Cyrddau Pregethu Bethel a Seion yn Seion am 10yb a 6yh.<br>Pregethir gan y Parchedig Beti Wyn James, Caerfyrddin. | Gofal y Te: I'w drefnu |
| 24 Hydref 10.30 | Horeb a Bethel yn uno yn Horeb.<br>Pregethir gan y Br. Adrian Morgan | |
| 31 Hydref 10.30 | Oedfa Bregeth<br>Gweinidog | |
| 7 Tachwedd<br>2.30 | Oedfa Gyflwyno a Chymun<br>Gweinidog | Bwrdd y Cymun: Mervyn a Sue Hughes |

**I'CH DYDDIADUR**

4 Hydref : Cinio Cymorth Cristnogol: Neuadd y Waun : 12.00-2.00
5 Hydref : 'A Night of Colour' yng nghwmni'r Parchedig Daniel Cozens yng nghapel y Morfa am 7yh.
6 Hydref : Noson agoriadol 'Os Mêts' yn Neuadd Rhydypennau am 7yh.
6 Hydref : Oedfa ddiolchgarwch : Neuadd Penrhyn-coch am 7yh yng nghwmni'r Parchedig Tecwyn Ifan
8 Hydref : Oedfa Iacháu yn Horeb am 7yh
9 Hydref : Dathliad Ffydd yng nghwmni'r Parchedig Daniel Cozens yn y Neuadd Fawr yn Aberystwyth am 7yh
13 Hydref: Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys : Horeb yn gyfrifol am weini.
20 Hydref: Cofio BJ yng Nghymdeithas y Penrhyn am 7.30
21 Hydref : Cymdeithas Canolfan Dafydd ap Gwilym: Darlith gan yr Athro Dafydd Johnson yn Horeb. 7.30yh
27 Hydref: Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys
26 Hydref : Cyfarfodydd Hanner Blynyddol y Gymanfa yn Salem, Llangennech.
26 Hydref: Cwrdd Gweddi Misol yn festri Horeb 7.30
4 Tachwedd: Noson o ganu cynulleidfaol yng nghapel y Morfa. 7-8yh. Mynediad £2.
14 Tachwedd: Oedfa Gomisiynu Efan Miles Williams yn Swyddog Datblygu a Hyrwyddo Gwaith Plant ac Ieuenctid yng nghapel Rhydlwyd, Lledrod am 2yp

**LLOFFION**

Pen-blwydd Hapus i Mr Emyr Edwards a ddathlodd ei ben-blwydd yn 80 yn ddiweddar.
Dymuniadau gorau i Gwenno Healy wrth iddi gychwyn ar ei chwrs coleg yn Lerpwl.
Neuadd y Penrhyn: Mae angen rhywun i gynrychioli Horeb ar Bwyllgor Neuadd y Penrhyn – os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch â Ceris.
Swyddog Datblygu a Hyrwyddo Gwaith Plant ac Ieuenctid: Penodwyd Efan Miles Williams i'r swydd hon yn ddiweddar ac fe gychwynnodd ar ei waith ddechrau mis Medi. Fe fydd yn lansio noson agoriadol 'Os Mêts' yn Neuadd Rhydypennau ar nos Fercher 6ed Hydref am 7yh. Croeso cynnes i bawb o oed ysgol uwchradd.